

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle Rhoddwyd Rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
Deintyddfa Preswylfa**

30 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	10
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd	16
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn Neintyddfa Preswylfa, Heol Glanhwfa, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7EN, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 30 Mawrth 2015.

Gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.¹

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferwyd yn y sefydliad yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Preswylfa yn darparu gwasanaethau i oddeutu 3,000 o gleifion yn Llangefni a chyffiniau Ynys Môn. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un therapydd deintyddol, un therapydd orthodontig, pedair nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, rheolwr practis (sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwys sy'n helpu yn y rôl hon yn ôl y gofyn), a derbynnydd.

Mae Deintyddfa Preswylfa yn bractis â dwy ystafell driniaeth, ac mae mwyafrif y deintyddion a'r therapyddion yn rhai rhan amser. Mae'r practis yn cynnig holl sbectrwm gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys orthodonteg i blant. Cynigir ystod eang o driniaethau preifat, gan gynnwys llonyddu mewnwythiennol a llonyddu mewnadliadol.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y prif ddeintydd – sef perchennog y practis – wedi prynu'r adeilad drws nesaf. Roedd gwaith adfer ar waith, a fyddai'n ychwanegu tair ystafell driniaeth, dwy ystafell ddadheintio neilltuedig, a man aros i gleifion. Rhagwelwyd y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau yn ystod haf 2015.

Gan fod Deintyddfa Preswylfa yn bractis cymysg, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, hefyd yn destun i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiedig) 2011.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Deintyddfa Preswylfa yn bodloni safonau gofal Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Profiad y Claf

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn. Mae cyfran uchel o'r cleifion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, a gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rydym wedi argymhell y dylai'r practis adolygu ei weithdrefn gwyno, yn unol â threfniadau cwynion y GIG. Dylai gwybodaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â ffioedd ar gyfer gwasanaethau fod ar gael yn fwy hwylus i'r cleifion. Rydym hefyd wedi argymhell bod amrywiaeth o ddulliau a moddau yn cael eu hystyried gan y practis i ymgysylltu â chleifion a cheisio adborth am eu profiad.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod safon y cyfleusterau dadheintio yn is o lawer na'r safonau disgwyledig. O ganlyniad, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella i'r practis, ac fe wnaethant ymateb yn brydlon iddynt, gan ddarparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Rhoddodd hyn sicrwydd digonol i ni fod y risg i ddiogelwch cleifion wedi cael ei lleihau. Roedd cynlluniau i ehangu'r practis ar waith, ac fe ddylai hyn ddarparu gwell cyfleusterau o ran dadheintio a gwastraff clinigol.

Roedd cofnodion cleifion wedi cael eu cwblhau'n foddhaol yn y rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, rydym wedi nodi gwelliannau, ac fe ddylai hyn sicrhau bod cofnodion cyson yn cael eu cadw ymhlith yr holl ymarferwyr.

Roedd yr ymarferwyr deintyddol wedi derbyn yr hyfforddiant mwyaf diweddar mewn ymarfer clinigol, gan gynnwys adfywio cardio-pwlmonaidd, radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried lleoliad switsys offer radiograffeg, yn unol â chanllawiau arferion gwaith diogel.

Rydym hefyd wedi argymhell bod amllder profion dyfeisiau cludadwy yn cael ei adolygu, yn unol â'r gwahanol fathau o gymwyseddau trydanol a ddefnyddir yn y practis deintyddol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Y prif ddeintydd yw perchennog y practis, ac mae'n rhannu'r gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd â'r rheolwr practis. Gwelsom nad oedd y systemau yn ddigon cadarn mewn nifer o feysydd. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y gwelliannau y gwnaethom eu hargymell – er enghraifft, i sicrhau bod gwiriadau cyflogadwyedd rheolaidd, arfarniadau blynyddol staff, ac adolygiadau ac archwiliadau clinigol rheolaidd gan gymheiriaid yn cael eu cynnal.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o arfer da mewn meysydd eraill. Er enghraifft, roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, ac roedd dystiolaeth bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu defnyddio fel dull dysgu a datblygu gan staff. Gwelsom hefyd fod ymarferwyr deintyddol wedi mynychu hyfforddiant rheolaidd, ac roeddent yn gyfredol o ran gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Ansawdd yr Amgylchedd

Ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith adnewyddu ar waith i ehangu'r practis yn sgil prynu'r adeilad drws nesaf. Gallai hyn olygu creu tair ystafell driniaeth ychwanegol a dwy ystafell neilltuedig ar gyfer dadheintio.

Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried gwella cyfleusterau toiledau'r cleifion er mwyn caniatáu mynediad i gadeiriau olwynion.

Gwelsom fod angen ailwampio neu ailaddurno rhai ardaloedd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr ardaloedd hyn eisoes wedi'u cynnwys yng nghynllun ailwampio'r practis, ac roeddent yn rhagweld y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2015. Rydym wedi cynghori'r practis i hysbysu AGIC pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon iawn gyda'r gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn. Mae cyfran uchel o'r cleifion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, a gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rydym wedi argymhell y dylai'r practis adolygu ei weithdrefn gwyno, yn unol â threfniadau cwynion y GIG. Dylai gwybodaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â ffioedd ar gyfer gwasanaethau fod ar gael yn fwy hwylus i'r cleifion. Rydym hefyd wedi argymhell bod amrywiaeth o ddulliau a moddau yn cael eu hystyried gan y practis i ymgysylltu â chleifion a cheisio adborth am eu profiad.

Wythnos cyn yr arolygiad, rhoddodd AGIC holiadur i'r practis i'w gwblhau gan gleifion. Rhoddwyd 17 o holiaduron wedi'u cwblhau inni ar fore'r arolygiad, a gwnaethom sgwrsio â dau glaf yn ystod ein hymweliad.

Dywedodd pob claf a wnaeth ymateb i'n holiadur ei fod yn cael croeso gan dîm y practis, yn cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, a'i fod yn hapus â'r gwasanaeth yr oedd wedi'i dderbyn. Dywedodd y cleifion nad oedd oedi cyn cael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad, neu fod yr oedi wedi cael ei gadw cyn lleied ag y bo modd, rhwng 10 ac 20 munud fan bellaf. Dywedodd dau o'r cleifion fod eu partner a'u plant wedi'u cofrestru yn y practis ac roeddent yn fodlon iawn ar y deintyddion a'r gwasanaethau a gawsant ar hyd y blynyddoedd. Gwnaethom dderbyn sylwadau cadarnhaol ychwanegol gan nifer o gleifion, ac rydym wedi cynnwys sampl bach ohonynt isod:

"Mae'r derbynnydd yn barod iawn ei gymwynas wrth fodloni anghenion. Profiad wedi'i ganolbwyntio ar y claf."

"Mae'r tîm bob amser yn groesawgar iawn ac yn gymwynasgar."

"Yn wych wrth ymdrin â thriniaeth ar frys hefyd."

Dywedwyd wrthym mai Cymraeg yw iaith gyntaf tua 70% o'r cleifion. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cryn dipyn o'r wybodaeth ysgrifenedig wedi cael ei chyflwyno'n ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu fod fersiwn Gymraeg o ddogfennau ar gael yn y practis.

Roedd mwyafrif y cleifion yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol, a sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos yn nhaflen wybodaeth y cleifion ac ar nifer o'r hysbysfyrddau yn y ddeintyddfa. Roedd anghysondebau yn y gweithdrefnau cwyno a welwyd: roedd un weithdrefn yn cyfeirio at amserlen o ddeuddydd i gydnabod cwyn, tra oedd gweithdrefn arall yn cyfeirio at dri diwrnod i wneud hyn. Nid oedd yr un o'r gweithdrefnau cwyno yn cyfeirio at drefniadau 'Gweithio i Wella' y GIG.²

Yr hyn sydd angen ei wella

Rydym wedi cynghori'r practis i ymgyswrtu â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG. Dylid adolygu'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG i sicrhau cysondeb â'r trefniadau hyn.

Nid oedd llyfr cwynion yn y practis. Dywedodd y rheolwr practis a'r prif ddeintydd wrthym mai tua thair blynedd yn ôl roedd y gwyn diwethaf a dderbyniwyd, ac roedd hon yn ymwneud â mân fater. Gwnaethant ddweud mai yn anaml iawn y byddent yn derbyn cwynion. Gwnaethom drafod y posibilrwydd nad oedd sylwadau cleifion yn cael eu trin fel cwynion ac o ganlyniad nid oeddent wedi cael eu cofnodi, ac roedd y rheolwr practis a'r deintydd yn cydnabod y gallai hynny fod yn bosiblwydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Fel rhan o'r adolygiad uchod o gwynion, dylid datblygu llyfr cwynion i fonitro a dysgu wrth unrhyw bryderon a godir gan gleifion.

Roedd hysbysiad ynglŷn â ffioedd y GIG wedi'i arddangos yn y man aros. Ni welsom hysbysiad yn nodi'r costau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat, ond dywedwyd wrthym fod un ar gael yn y dderbynfa. Nid oedd taflen wybodaeth y practis yn cynnwys holl ystod y gwasanaethau a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wella'r wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion, er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau, ynghyd â chostau'r GIG

² 'Gweithio i Wella' yw trefniadau'r GIG ar gyfer ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ac ymateb iddynt.

a chostau preifat ar gyfer gwasanaethau, ar gael yn fwy hwylus a/neu yn cael eu harddangos yn fwy amlwg.

Gwelsom mai prin iawn oedd y cyfleoedd i gleifion ymgysylltu â staff neu roi adborth iddynt ynglŷn â chynllunio a darparu gwasanaethau. Dywedodd y rheolwr practis wrthym eu bod wedi dosbarthu arolwg cleifion yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid oedd system ffurfiol ar waith i gasglu barn nac adborth gan y cleifion, fel, er enghraifft, blwch sylwadau, arolygon cleifion rheolaidd, na thudalen ar wefan y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried amrywiaeth o ddulliau a moddau er mwyn ymgysylltu â chleifion a cheisio adborth ganddynt am eu profiad.

Dylai'r practis ddangos ei fod yn gweithredu mewn ymateb i farn ac adborth cleifion trwy wneud newidiadau i wella gwasanaethau.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod safon y cyfleusterau dadheintio yn is o lawer na'r safonau disgwyliedig. O ganlyniad, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella i'r practis, ac fe wnaethant ymateb yn brydlon iddynt, gan ddarparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Rhoddodd hyn sicrwydd digonol i ni fod y risg i ddiogelwch cleifion wedi cael ei lleihau. Roedd cynlluniau i ehangu'r practis ar waith, ac fe ddylai hyn ddarparu gwell cyfleusterau o ran dadheintio a gwastraff clinigol.

Roedd cofnodion cleifion wedi cael eu cwblhau'n foddhaol yn y rhan fwyaf o feysydd. Fodd bynnag, rydym wedi nodi gwelliannau, ac fe ddylai hyn sicrhau bod cofnodion cyson yn cael eu cadw ymhlith yr holl ymarferwyr.

Roedd yr ymarferwyr deintyddol wedi derbyn yr hyfforddiant mwyaf diweddar mewn ymarfer clinigol, gan gynnwys adfywio cardio-pwlmonaidd, radiograffeg a diogelu rhag ymbelydredd. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried lleoliad switsys offer radiograffeg, yn unol â chanllawiau arferion gwaith diogel.

Rydym hefyd wedi argymhell bod amllder profion dyfeisiau cludadwy yn cael ei adolygu, yn unol â'r gwahanol fathau o gymwyseddau trydanol a ddefnyddir yn y practis deintyddol.

Ar adeg ein harolygiad, roedd perchennog y practis wedi prynu'r adeilad drws nesaf, ac roedd hwn yn cael ei adnewyddu i gynnwys ystafelloedd triniaeth ychwanegol a dwy ystafell ddadheintio benodol ar gyfer ystafelloedd triniaeth y llawr daear a'r llawr gwaelod.

Fodd bynnag, gwelsom fod safon y cyfleusterau dadheintio yn yr adeilad presennol yn is o lawer na'r hyn a geir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,³ ac maent felly'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gwnaethom gyflwyno

³Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw'r canllawiau ar gyfer dadheintio mewn gofal sylfaenol, practisau deintyddol a gwasanaethau deintyddol cymunedol. Nod y canllawiau yw codi ansawdd gwaith dadheintio mewn gwasanaethau deintyddol.

llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella. Gwnaeth y practis ymateb yn gyflym, gan ddarparu sicrwydd digonol i AGIC ei fod wedi gweithredu ar unwaith i roi'r gorau i ddefnyddio'r ystafell ddadheintio bresennol. Gwnaed trefniadau amgen i osod ardal arall nes bod yr ystafelloedd dadheintio newydd yn cael eu cwblhau, a rhagwelwyd y byddai hyn yn digwydd yn ystod Mai 2015. Cadarnhaodd y practis hefyd ei fod yn rhoi ystyriaeth i Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wrth gynllunio ar gyfer y cyfleusterau dadheintio newydd.

Gwnaethom edrych ar gyfanswm o naw o gofnodion cleifion, gan samplu dau neu dri o gofnodion fesul deintydd a therapydd deintyddol. Ar y cyfan, cawsom fod y safon o gadw cofnodion yn foddhaol. Fodd bynnag, gwelsom fod anghysondebau rhwng deintyddion; nid oedd hanesion meddygol y cleifion bob amser yn cael eu llofnodi a'u diweddarau gan ddau ddeintydd, a hefyd nid oedd y radiograffau yn cael eu graddio'n gyson gan ddau allan o'r tri deintydd. Nid oedd tystiolaeth ddogfennol o drafodaethau am hanesion cleifion o ran yfed alcohol ac ysmegu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod hanesion meddygol y cleifion yn cael eu llofnodi a'u diweddarau'n rheolaidd gan yr holl ddeintyddion.

Dylai'r cofnodion clinigol bob amser gynnwys y graddau radiograffeg.

Dylai'r nodiadau clinigol gynnwys trafodaethau hefyd ynghylch hanesion y cleifion o ran ysmegu ac yfed alcohol ac am roi'r gorau iddynt.

Gwelsom yr offer radiograffig (pelydr-X) a dogfennaeth arall. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant, a oedd yn dangos bod pob ymarferydd a oedd yn gyfrifol am ddefnyddio a phrosesu radiograffau wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd un darn o offer wedi torri ac roedd angen un newydd yn ei le, yn barod at ehangu i'r adeilad drws nesaf. Roedd y switsys ynysu ar gyfer y peiriannau pelydr-X presennol wedi'u lleoli yn yr ystafelloedd triniaeth. Lle bo'n bosibl, dylai'r switsys dadlennu, y prif ynysyddion a'r switsys pŵer fod y tu allan i'r parth dan reolaeth. Byddai hyn yn golygu y gallai'r offer gael ei ynysu wrth y prif gyflenwad trydan, heb i'r gweinyddwr orfod mynd i mewn i'r ardal dan reolaeth.⁴

⁴Yn unol â'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol: Nodiadau Canllaw ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol ar Ddefnyddio Offer Pelydr-X yn Ddiogel (Argraffwyd gan yr Adran Iechyd, 2001)

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried lleoliad y switsys offer radiograffeg, yn unol â chanllawiau arferion gwaith diogel.

Gwelsom fod gan y practis stoc o feddyginiaeth frys, a oedd â dyddiad dod i ben cyfredol, ac offer adfywio cardio-pwlmonaidd, yn unol â'r canllawiau. Roedd tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant blynyddol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd, a bod yr hyfforddiant mwyaf diweddar yn cael ei gynnal yn ystod Chwefror 2015.

Roedd cytundebau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol a chlinigol. Nid oedd gan y practis wahanyddion amalgam, a ddylai fod gan bob practis deintyddol (yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Canllawiau ar reoli gwastraff gofal iechyd yn ddiogel). Cawsom sicrwydd y bydd cadeiriau deintyddol newydd yn cael eu gosod ym mhob ystafell driniaeth yn ystod y misoedd nesaf, a fydd yn cynnwys gwahanyddion amalgam. Dywedwyd wrthym fod y practis eisoes wedi cysylltu â Dŵr Cymru ynglŷn â gwastraff amalgam, ac nad oedd angen cam gweithredu pellach.

Nid oedd tystiolaeth bod cymwyseddau trydanol cludadwy wedi cael eu profi, ond gwelsom lythyr a oedd yn nodi y byddai trydanwr yn ymweld â'r ddeintyddfa i ymgymryd â phroffion dyfeisiau cludadwy yn ystod Ebrill 2015.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis i ystyried canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gynnal a chadw offer trydanol cludadwy (2013) wrth asesu'r risg a berir gan y math o eitemau trydanol cludadwy a ddefnyddir yn y practis a pha mor aml yr argymhellir cynnal profion arnynt.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Y prif ddeintydd yw perchennog y practis, ac mae'n rhannu'r gwaith o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd â'r rheolwr practis. Gwelsom nad oedd y systemau yn ddigon cadarn mewn nifer o feysydd. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y gwelliannau y gwnaethom eu hargymell - er enghraifft, i sicrhau bod gwiriadau cyflogadwyedd rheolaidd, arfarniadau blynyddol staff, ac adolygiadau ac archwiliadau clinigol rheolaidd gan gymheiriaid yn cael eu cynnal.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o arfer da mewn meysydd eraill. Er enghraifft, roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, ac roedd tystiolaeth bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu defnyddio fel dull dysgu a datblygu gan staff. Gwelsom hefyd fod ymarferwyr deintyddol wedi mynychu hyfforddiant rheolaidd, ac roeddent yn gyfredol o ran gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd, rheolwr y practis a dwy o'r nyrsys deintyddol, ac roedd tystiolaeth o berthynas waith agos a pharchus rhyngddynt. Roedd yr holl staff a welsom yn ystod ein harolygiad yn dangos parch ac yn groesawgar tuag atom.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr un deintydd dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis, a gwnaethant gytuno i sicrhau bod pob aelod o staff deintyddol yn diweddarau ei wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, rhaid i bob deintydd sy'n darparu triniaethau deintyddol preifat fod â thystysgrif cofnodion troseddol fanylach sydd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf.

Wrth edrych ar ffeiliau'r staff, nid oeddem yn gallu cadarnhau p'un a oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ai peidio ar gyfer aelodau eraill o staff yn y practis. Er nad yw'n orfodol i staff practisau gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dylai'r

deintydd sy'n cyflogi sicrhau bod y gweithlu yn cael yr holl wiriadau angenrheidiol ac achlysurol sy'n ymwneud â recriwtio a chyflogaeth.

Roedd tystiolaeth bod yr ymarferwyr deintyddol yn mynychu hyfforddiant cyson, a gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer cyrsiau yr oeddent wedi eu cwblhau eleni ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwnaethom edrych ar ffeil yr aelod o staff mwyaf diweddar a gweld bod rhaglen sefydlu wedi cael ei dilyn a bod llofnod i ddangos ei bod wedi'i chwblhau.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis, a gwelsom gofnodion manwl a oedd yn cynnwys y materion a'r gweithredoedd a oedd yn deillio o'r rhain. Roedd tystiolaeth glir o gyfranogaeth weithredol gan y staff a chanlyniadau dysgu o'r cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd system ffurfiol ar waith ar hyn o bryd ar gyfer arfarniadau staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod aelodau o staff yn cael arfarniad blynyddol a chynllun datblygiad personol.

Canfuwyd gennym fod y polisïau a'r gweithdrefnau yn ymdrin â'r holl feysydd perthnasol a ddisgwylir mewn practis deintyddol. Gwnaethom argymhell y dylai rhai o'r polisïau – er enghraifft, y polisi chwythu'r chwiban a diogelu – gael eu hadolygu i gynnwys mwy o fanylder er mwyn i'r staff weithredu arnynt. Roedd rhai o'r polisïau wedi eu cael gan Denplan a'u haddasu at ddibenion Deintyddfa Preswylfa. Gwnaethom atgoffa rheolwr y practis i ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Cymru ac i addasu eu polisïau a'u gweithdrefnau mewnol yn unol â hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol Cymru.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r prif ddeintydd ynglŷn ag archwiliadau sicrwydd ansawdd ac adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. Fe'n hysbyswyd nad oedd systemau archwilio ffurfiol yn bodoli, ac felly ychydig iawn o archwiliadau a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwnaethom drafod manteision cynnal archwiliadau. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai archwiliad adolygu clinigol gan gymheiriaid wedi nodi'r anghysondebau a welsom wrth edrych ar gofnodion cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellir bod y practis yn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygiadau clinigol gan gymheiriaid yn rheolaidd. Dylid defnyddio'r rhain fel dull i'r staff fesur a chofnodi cynnydd.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiaid â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith adnewyddu ar waith i ehangu'r practis yn sgil prynu'r adeilad drws nesaf. Gallai hyn olygu creu tair ystafell driniaeth ychwanegol a dwy ystafell neilltuedig ar gyfer dadheintio.

Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried gwella cyfleusterau toiledau'r cleifion er mwyn caniatáu mynediad i gadeiriau olwynion.

Gwelsom fod angen ailwampio neu ailaddurno rhai ardaloedd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr ardaloedd hyn eisoes wedi'u cynnwys yng nghynllun ailwampio'r practis, ac roeddent yn rhagweld y byddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2015. Rydym wedi cynghori'r practis i hysbysu AGIC pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Mae Deintyddfa Preswylfa ar y brif heol i mewn i Langefni ac o fewn pellter cerdded i ganol y dref. Nid oes maes parcio pwrpasol ar gael i gleifion, ond mae maes parcio mawr i'r cyhoedd gerllaw.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cynlluniau a gwaith adnewyddu ar waith i ehangu'r gwasanaeth yn sgil prynu'r adeilad drws nesaf. Ar hyn o bryd, mae gan y practis un ystafell driniaeth ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf. Bydd yr estyniad o bosibl yn ychwanegu at dair ystafell driniaeth arall a dwy ystafell ddadheintio, un ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear a'r llall ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr cyntaf.

Roedd ramp ar gael y tu allan er mwyn mynd at yr adeilad. Roedd y drysau ar gyfer mynd i mewn i'r adeilad ac ar gyfer yr ystafell driniaeth ar y llawr daear yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd toiled y cleifion lawr llawr, ac roedd canllaw cydio a chanllawiau wedi'u gosod ynddo. Fodd bynnag, roedd y tŷ bach hwn yn rhy fach i rywun mewn cadair olwyn ei ddefnyddio. Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw gynlluniau i ychwanegu toiled arall ar gyfer y cleifion yn estyniad y practis. O ganlyniad, rydym wedi cynghori'r practis i ailystyried cyfleusterau toiledau'r cleifion, am y rheswm nad oedd y toiled presennol yn addas at ddibenion pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Fel y nodwyd eisoes yn adran Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru yr adroddiad hwn, roedd safon rhai o'r cyfleusterau yn yr amgylchedd llawer yn is na'r hyn a argymhellir yn ôl canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn ogystal â hyn, roedd arwyneb rhai o'r cadeiriau yn yr ystafelloedd triniaeth wedi torri, sydd hefyd yn peri risg o halogiad. Fe'n hysbyswyd bod cadeiriau newydd yn mynd i gael eu gosod yn lle'r hen

gadeiriau, yn unol â'r cynllun adnewyddu y rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau erbyn haf 2015.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu AGIC pan fydd y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau, a phan fydd y cadeiriau newydd yn eu lle.

Gwelsom fod amserlenni glanhau, a oedd yn cynnwys ardaloedd clinigol, toiledau, y gegin a'r ystafell aros, wedi'u harddangos yn rhannau perthnasol y practis. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth eu bod wedi cael eu gweithredu yn y practis oherwydd nid oedd yr un ohonynt wedi cael ei lofnodi. Dywedwyd wrthym mai dim ond yn ddiweddar y cafodd yr amserlenni hyn eu llunio, ac ar hyn o bryd ni chynhaliwyd trafodaeth â'r glanhawr ynglŷn â'r rhain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom gyngori'r practis y dylid rhoi'r amserlenni glanhau ar waith cyn gynted â phosibl (gan roi ystyriaeth i'r gwaith glanhau ychwanegol a fydd ei angen yn ystod camau olaf y gwaith adnewyddu).

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Preswylfa yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Preswylfa, Heol Glanhwfa, Llangefni

Dyddiad yr Arolygiad: 30 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
8	Rydym wedi cynghori'r practis i ymgyswrttu â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG. Dylid adolygu'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG i sicrhau cysondeb â'r trefniadau hyn.	Ers yr arolygiad, rydym wedi argraffu rhai o'r taflenni 'Gweithio i Wella' a'u gosod yn yr ystafell aros ynghyd â phoster sydd ag enw tebyg. Rydym hefyd wedi gwneud cais i dderbyn mwy o gopïau wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fe fyddwn ni'n adolygu ein gweithdrefn gwyno mewn perthynas â'r ddogfen GIG hon.	Stephen J. Keen (Perchennog y Practis) ac Ann R. James (Rheolwr y Practis)	1 mis
8	Dylai'r practis wella'r wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion, er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau, ynghyd â chostau'r GIG a chostau preifat ar gyfer gwasanaethau, ar gael yn fwy hwylys a/neu yn cael eu harddangos yn fwy amlwg.	Byddwn yn addasu ein taflenni gwybodaeth am y practis i gynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â'r triniaethau rydym yn eu darparu, a byddwn yn darparu cleifion â thaflenni penodol ynglŷn â rhai triniaethau. Byddwn hefyd yn arddangos ein ffioedd preifat mewn ardal fwy amlwg yn y	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	3 mis

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		dderbynfa. Rydym yn gobeithio y bydd gennym wefan ar gyfer y practis yn y dyfodol agos, unwaith bydd y gwaith ailwampio wedi dod i ben.		
9	Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried amrywiaeth o ddulliau a moddau er mwyn ymgysylltu â chleifion a cheisio adborth ganddynt am eu profiad. Dylai'r practis ddangos ei fod yn gweithredu mewn ymateb i farn ac adborth cleifion trwy wneud newidiadau i wella gwasanaethau.	Byddwn yn cysylltu â Denplan ar gyfer hyfforddiant a chynghor am sut i ymgysylltu â chleifion yn effeithiol a sut i dderbyn adborth gan gleifion ac ymateb iddo fel y gallwn wella ein gwasanaethau.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	6 mis
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
11	Sicrhau bod hanesion meddygol y cleifion yn cael eu llofnodi a'u diweddarau'n rheolaidd gan yr holl ddeintyddion. Dylai'r cofnodion clinigol bob amser gynnwys y graddau radiograffeg. Dylai'r nodiadau clinigol gynnwys trafodaethau hefyd ynghylch hanesion y cleifion o ran ysmegu ac yfed alcohol ac am roi'r gorau iddynt.	Rydym eisoes wedi ymgorffori'r argymhellion hyn yn dilyn cyfarfod practis a gynhaliwyd yn fuan ar ôl yr arolygiad o'r practis. Penderfynwyd y byddwn yn addasu ein ffurflen hanes meddygol i gynnwys cwestiynau ynglŷn ag yfed alcohol a thueddiadau ysmegu. Gofynnir i bob claf a fydd yn mynychu archwiliad rheolaidd gwblhau un o'r ffurflenni hanes meddygol diwygiedig hyn. Mae'r graddau radiograffeg yn cael eu cofnodi erbyn hyn yn y nodiadau clinigol yn ogystal ag ar y taflenni cofnodi radiograffau.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	1 wythnos
11	Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried lleoliad y switsys offer radiograffeg, yn unol â	Ceisiwyd cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn dilyn yr arolygiad o'r practis, ac, unwaith eto,	Ann R James (Rheolwr y Practis)	Nid oes angen

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	chanllawiau arferion gwaith diogel.	gwnaethant gadarnhau bod y trefniadau presennol yn "foddhaol".		camau gweithredu pellach.
12	Cynghorir y practis i ystyried canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gynnal a chadw offer trydanol cludadwy (2013) wrth asesu'r risg a berir gan y math o eitemau trydanol cludadwy a ddefnyddir yn y practis a pha mor aml yr argymhellir cynnal profion arnynt.	Y gobaith yw y bydd profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn ystod y mis nesaf, ar yr amod y bydd y trydanwr ar gael.	Ann R James (Rheolwr y Practis)	1 mis
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
13	Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, rhaid i bob deintydd sy'n darparu triniaethau deintyddol preifat fod â thystysgrif cofnodion troseddol fanylach sydd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf.	Bydd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar holl staff y practis yn ystod y ddau fis nesaf, gyda chymorth wrth Gymdeithas Ddeintyddol Prydain a Denplan.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	3 mis
14	Dylai'r practis sicrhau bod aelodau o staff yn cael arfarniad blynyddol a chynllun datblygiad personol.	Gwnaed trefniadau i gyfarfod â staff y practis bob wythnos o hyn ymlaen, fel y gellir llunio arfarniadau ac anghenion hyfforddiant.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	3 mis
14	Argymhellir bod y practis yn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygiadau clinigol gan gymheiriaid yn rheolaidd. Dylid defnyddio'r rhain fel dull i'r staff fesur a chofnodi cynnydd.	Mae'r deintyddion yn cynnal cyfarfod unwaith y mis, ac fe fyddwn yn trafod prosiectau a threfniadau posibl yn ein cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	6 – 12 mis

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd yr Amgylchedd			
17	Rhaid i'r practis hysbysu AGIC pan fydd y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau, a phan fydd cadeiriau newydd yn eu lle.	Bydd perchennog y practis yn cysylltu ag AGIC yn ysgrifenedig unwaith y bydd gwaith ailwampio'r practis yn gyflawn.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis)	2 fis
17	Gwnaethom gynghori'r practis y dylid rhoi'r amserlenni glanhau ar waith cyn gynted â phosibl (gan roi ystyriaeth i'r gwaith glanhau ychwanegol a fydd ei angen yn ystod camau olaf y gwaith adnewyddu).	Bydd perchennog y practis a'r rheolwr practis yn trefnu cyfarfod â'r glanhawr i drafod argymhellion yr adroddiad ac i sicrhau cydymffurfedd â'r amserlen lanhau.	Stephen J Keen (Perchennog y Practis) ac Ann R James (Rheolwr y Practis)	1 wythnos

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch): **STEPHEN J. KEEN**

Teitl: **PERCHENNOG Y PRACTIS**

Dyddiad: **1 Mai 2015**